



UK Government

Datganiad Polisi Cenedlaethol ar gyfer Cynhyrchu Ynni Niwclear, EN-7: Ymateb y Llywodraeth

Yr Adran Diogeledd Ynni a Sero Net

Hydref 2025

Cwmpas tiriogaethol

Mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud ag arfer pwerau yng Nghymru a Lloegr. Yn gyffredinol, mae polisi ynni yn fater a gedwir i Weinidogion y DU, ond nid yw'r pwerau sy'n berthnasol i'r ymgynghoriad hwn yn berthnasol yn yr Alban a Gogledd Iwerddon oherwydd bod y pŵer cyfreithiol i gydsynio i adeiladu gorsafoedd cynhyrchu trydan sydd â capasiti o fwy na 50 Megawat (MW) wedi'i ddatganoli'n weithredol i Weinidogion yr Alban, ac mae hefyd wedi'i ddatganoli yng Ngogledd Iwerddon. Yn ogystal, mae Deddf Cymru 2017 yn rhoi'r cyfrifoldeb i Weinidogion Cymru gydsynio i adeiladu gorsafoedd cynhyrchu trydan sydd â capasiti cynhyrchu rhwng 10 MW a 350 MW.



© Hawlfraint y Goron 2025

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi'i drwyddedu o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored f3.0 oni nodir yn wahanol. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3.

Lle rydym wedi nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn www.gov.uk/official-documents.

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch y cyhoeddiad hwn atom yn
NuclearNPS.Consultation@energysecurity.gov.uk.

Cynnwys

Cynnwys	4
1 Dadansoddiad y Llywodraeth o ymatebion i'r Ymgynghoriad Cyhoeddus ar 'Datganiad Polisi Cenedlaethol ar gyfer cynhyrchu pŵer niwclear newydd, EN-7'	5
1.1 Rhagarweiniad	5
1.2 Cwmpas yr ymgynghoriad	5
1.3 Methodoleg	6
1.4 Crynodeb Gweithredol	7
1.5 Ystyriaethau cyffredinol	9
1.6 Ymagwedd gyffredinol at EN-7 (cwestiynau ymgynghori 1-3)	12
1.7 Meini prawf penodol (cwestiynau ymgynghori 4-7)	19
1.8 Gweithredu (cwestiwn ymgynghori 8)	25
2 Camau nesaf: Y broses a'r amserlen tuag at ddynodi'r Datganiad Polisi Cenedlaethol newydd EN-7	28
2.1 Rhagarweiniad	28
2.2 Proses ac amserlen	28

1 Dadansoddiad y Llywodraeth o ymatebion i'r Ymgynghoriad Cyhoeddus ar 'Datganiad Polisi Cenedlaethol ar gyfer cynhyrchu pŵer niwclear newydd, EN-7'

1.1 Rhagarweiniad

- 1.1.1 Mae gan ynni niwclear rôl hanfodol i'w chwarae wrth bweru dyfodol ynni glân Prydain a bydd yn helpu i wneud y DU yn Uwch-bŵer Ynni Glân fel rhan o Gynllun y Prif Weinidog ar gyfer Newid.
- 1.1.2 Bydd y Datganiad Polisi Cenedlaethol newydd ar gyfer Cynhyrchu Ynni Niwclear, EN-7, yn rhan allweddol o'r broses gynllunio ar gyfer unrhyw brosiect niwclear newydd, boed fel Datganiad Polisi Cenedlaethol perthnasol ar gyfer cais am Ganiatâd Datblygu, neu fel Ystyriaeth Berthnasol bosibl wrth benderfynu ar fath arall o gais cynllunio ar gyfer datblygu seilwaith niwclear. Bydd y Datganiad Polisi Cenedlaethol hwn yn ategu'r Datganiad Polisi Cenedlaethol cyffredinol ar gyfer Ynni, EN-1, trwy nodi meini prawf penodol i niwclear.

1.2 Cwmpas yr ymgynghoriad

- 1.2.1 Roedd yr ymgynghoriad a lansiwyd ym mis Chwefror 2025 yn cynnwys y Datganiad Polisi Cenedlaethol drafft ar gynhyrchu ynni niwclear, o'r enw EN-7, ac yn canolbwyntio ar sicrhau ei fod yn addas at y diben. Gwnaed hyn drwy nodi'r dull cyffredinol o ymdrin ag EN-7 a'r meini prawf asesu a fydd yn llywio penderfyniad ynghylch a ddylid rhoi Caniatâd Datblygu ar gyfer seilwaith niwclear, a'n dull o gynorthwyo gweithredu gan ddatblygwyr. Mae'r meini prawf wedi'u rhannu'n dri chategori:
- *Ffactorau sy'n Dylanwadu ar Ddewis Safle* – Sicrhau mai dim ond ar gyfer datblygu seilwaith niwclear ar dir addas y rhoddir caniatâd datblygu;
 - *Ystyriaethau Technegol* – Sicrhau mai dim ond ar gyfer datblygu seilwaith niwclear lle mae sail resymol i gredu ei fod yn hyfyw y rhoddir caniatâd datblygu; ac
 - *Effeithiau* – Sicrhau bod effeithiau ar gymunedau perthnasol a'r amgylchedd yn cael eu rheoli.

- 1.2.2 Rydym wedi ystyried yr holl ymatebion a dderbyniwyd yn ofalus, ac yn gwerthfawrogi'r amser, yr ymdrech a'r arbenigedd a fuddsoddwyd gan yr holl ymatebwyr yn eu hadborth. Mae'r mewnwelediad hwn wedi bod yn hynod werthfawr wrth ystyried y drafft EN-7 a pholisïau ehangach ar gyfer cefnogi datblygiad niwclear. Mae ymateb y llywodraeth i'r newidiadau i'r drafft EN-7 a gynigiwyd mewn ymateb i'r ymgynghoriad wedi'u hamlinellu yn adrannau 1.6, 1.7 ac 1.8 o'r ddogfen hon.
- 1.2.3 Mewn rhai achosion, roedd yr ymatebion a dderbyniwyd yn berthnasol i gwestiwn gwahanol o fewn yr ymgynghoriad, neu nid oeddent yn ateb unrhyw gwestiwn penodol yn uniongyrchol. Yn yr achos cyntaf, mae'r pwyntiau a godwyd wedi cael eu trafod o dan y cwestiwn mwyaf priodol. Lle'r oedd yr ymatebion yn mynd i'r afael â phwyntiau ehangach na'r rhai a godwyd o dan gwestiwn unigol, mae'r rhain wedi cael eu trafod yn adran 1.5 o'r ddogfen hon sy'n mynd i'r afael ag ystyriaethau cyffredinol. Ystyriwyd yr holl adborth sy'n berthnasol i'r drafft EN-7 yn ofalus p'un ai oedd yn mynd i'r afael â chwestiwn ymgynghori penodol ai peidio.
- 1.2.4 Ni chaiff y nifer fach o bwyntiau a wnaed gan ymatebwyr a oedd y tu allan i gwmpas yr ymgynghoriad ar y drafft EN-7 eu trafod yn yr ymateb llywodraeth hwn.

1.3 Methodoleg

- 1.3.1 Cyhoeddwyd y papur ymgynghori ar-lein ochr yn ochr â dolen i arolwg ymgynghori, a oedd yn caniatáu i ymatebwyr ymateb i'r ymgynghoriad drwy Citizen Space. Rhoddwyd yr opsiwn i ymatebwyr ymateb drwy e-bost neu'r post. At ei gilydd, derbyniwyd 77 o ymatebion i'r ymgynghoriad, 56 drwy Citizen Space (73% o'r ymatebion) a 21 drwy e-bost (27% o'r ymatebion).
- 1.3.2 Roedd yr ymatebwyr yn gallu dewis un prif grŵp diddordeb yr oeddent yn ei ystyried yn berthnasol iddynt. Gellid cofnodi diddordebau pellach yn y blwch testun rhydd ond drwy gydol yr ymgynghoriad, dim ond yn ôl y prif grŵp diddordeb a ddewiswyd yn yr agwedd gaeedig ar y cwestiwn hwn y bydd data'n cael ei gyflwyno a'i ddadansoddi. Ni wnaed unrhyw wirio na chraffu ar yr hunan-ddewisiadau a wnaeth yr ymatebwyr.
- 1.3.3 Ychwanegwyd ymatebion e-bost a phost a dderbyniwyd gan yr Adran â llaw at Citizen Space; yna tynnwyd yr ymatebion e-bost, post ac ymatebion a gyflwynwyd trwy Citizen Space at ei gilydd, fel ffeil o ymatebion. Lle bo'n bosibl, categoriwyd yr ymatebion yn ôl y cwestiwn perthnasol fel y gellid adolygu'r rhain ochr yn ochr ag ymatebion Citizen Space.
- 1.3.4 Roedd strwythur yr arolwg ymgynghori yn cynnwys ymatebion caeedig lle gallai ymatebwyr ddewis o ddetholiad o atebion wedi'u diffinio ymlaen llaw, a chwestiynau agored lle gallai ymatebwyr lenwi blychau testun rhydd. Dim ond un ateb y gallai ymatebwyr ei ddewis ar gyfer ymatebion caeedig: Cytuno'n gryf, Cytuno, Heb benderfynu, Anghytuno, Anghytuno'n gryf a Dim digon o wybodaeth ar gyfer cwestiynau 1, 2, 4, a 5; ac Ydw, Nac ydw, Ansicr, Dim digon o wybodaeth neu Arall ar gyfer

cwestiynau 3, 7 ac 8. Cwestiynau agored yn unig oedd cwestiynau 6 a 9. Lle na roddodd yr ymatebwyr ateb, cofnodwyd y rhain fel Heb eu Hateb.

- 1.3.5 Cwblhawyd adolygiad â llaw o'r cwestiynau gyda chydrannau penagored. Arweiniodd yr adolygiad â llaw o gwestiynau penagored at grwpio ymatebion yn ôl themâu. Gall ymatebion berthyn i fwy nag un thema, ac felly gall nifer yr ymatebion thema fod yn fwy na chyfanswm yr ymatebion i gwestiwn. Adolygwyd y broses o neilltuo themâu i gwestiynau penagored sawl cam er mwyn sicrhau tegwch a chywirdeb.

1.4 Crynodeb Gweithredol

- 1.4.1 Cawsom 77 o ymatebion i'r ymgynghoriad. Y grŵp unigol mwyaf o ymatebwyr oedd 38 o gyrff ac arbenigwyr yn y diwydiant niwclear a/neu ynni, ac yna 19 o ymatebion gan sefydliadau anillywodraethol, aelodau o'r cyhoedd, ac eiriolwyr amgylcheddol, 14 o ymatebion gan awdurdodau lleol, a chwech gan ymgynghoreion statudol.
- 1.4.2 Mynegodd mwyafrif o'r ymatebwyr, (45, 58%), gefnogaeth i bŵer niwclear, am resymau gan gynnwys effaith pŵer niwclear ar dwf economaidd a swyddi, a'i gyflenwad o ynni carbon isel, diogel a dibynadwy. Ni fynegodd lleiafrif o'r ymatebwyr (23, 30%) gefnogaeth na gwrthwynebiad i ynni niwclear. Mynegodd lleiafrif bach o ymatebwyr (9, 12%) wrthwynebiad i niwclear am resymau gan gynnwys ei gost, effeithiau amgylcheddol, pryderon diogelwch, neu ffafriaeth am ynni adnewyddadwy.
- 1.4.3 Gan symud ymlaen at yr ymatebion a dderbyniwyd i bob cwestiwn:
- Gofynnodd cwestiwn un i ymatebwyr am eu barn ar gadw'r trothwy cynhyrchu trydan o 50 MW ar gyfer cynnwys prosiectau ynni niwclear yn y drefn Prosiect Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol (NSIP). Derbyniwyd chwe deg saith o ymatebion i'r cwestiwn hwn, y mwyafrif ohonynt (58%) yn Cytuno neu'n Cytuno'n Gryf, o'i gymharu â 24% a oedd yn Anghytuno neu'n Anghytuno'n Gryf. Roedd y gweddill heb benderfynu, neu dywedodd yr ymatebwyr nad oedd digon o wybodaeth.
 - Gofynnodd cwestiwn dau i ymatebwyr a oeddent yn credu bod y Datganiad Polisi Cenedlaethol drafft wedi'i baratoi'n ddigonol ar gyfer y dyfodol i ddarparu ar gyfer datblygiadau mewn technolegau niwclear. Derbyniwyd chwe deg wyth o ymatebion i'r cwestiwn hwn, y mwyafrif ohonynt (59%) yn Cytuno neu'n Cytuno'n Gryf, o'i gymharu â 31% a oedd yn Anghytuno neu'n Anghytuno'n Gryf. Roedd y gweddill heb benderfynu, neu dywedodd yr ymatebwyr nad oedd digon o wybodaeth.
 - Gofynnodd cwestiwn tri i ymatebwyr a oedd unrhyw ystyriaethau cynllunio neu leoli penodol y dylid mynd i'r afael â nhw i sicrhau bod y Datganiad Polisi Cenedlaethol yn parhau i fod yn hyblyg i ddefnyddio ynni niwclear mewn lleoliadau amrywiol. Derbyniwyd chwe deg naw o ymatebion i'r cwestiwn hwn, ac roedd mwyafrif helaeth ohonynt (75%) yn Oedd, o'i gymharu â 10% a oedd yn Na. Roedd llawer o'r ymatebion a atebodd Oedd naill ai'n dadlau o blaid llacio gofynion dwysedd

poblogaeth, neu ychwanegu manylion at nifer o feini prawf rydyn ni'n credu eu bod eisoes wedi'u trafod yn helaeth yn y datganiad Polisi Cenedlaethol cyffredinol ar gyfer ynni (EN-1), canllawiau cynllunio a rheoleiddio eraill, neu a fyddai'n cyfyngu'n ddiangen ar ddefnyddio ynni niwclear. Atebodd y gweddill Arall, roeddent heb benderfynu, neu dywedodd yr ymatebwyr nad oedd digon o wybodaeth.

- Gofynnodd cwestiwn pedwar i ymatebwyr i ba raddau yr oeddent yn cytuno â'r cynnig i ddileu'r gwahaniaeth rhwng meini prawf a ddisgrifiwyd yn flaenorol fel rhai 'gwaharddol' neu 'ddewisol'. Derbyniwyd saith deg dau o ymatebion i'r cwestiwn hwn, ac roedd mwyafrif helaeth ohonynt (72%) yn Cytuno neu'n Cytuno'n Gryf, o'i gymharu â 14% a oedd yn Anghytuno neu'n Anghytuno'n Gryf. Roedd y gweddill heb benderfynu, neu dywedodd yr ymatebwyr nad oedd digon o wybodaeth.
- Gofynnodd cwestiwn pump i ymatebwyr am eu barn ar ein cynnig i gadw'r Maen Prawf Dwysedd Poblogaeth Lled-Drefol (SUPDC) yn EN-7 a'r graddau y maent yn cytuno neu'n anghytuno. Derbyniwyd chwe deg pedwar o ymatebion i'r cwestiwn hwn, ac roedd 44% ohonynt yn Cytuno neu'n Cytuno'n Gryf, o'i gymharu â 34% a oedd yn Anghytuno neu'n Anghytuno'n Gryf. Roedd y gweddill sylweddol (22%) heb benderfynu, neu dywedodd yr ymatebwyr nad oedd digon o wybodaeth.
- Gofynnodd cwestiwn chwech i ymatebwyr ddarparu tystiolaeth a fyddai'n cefnogi newid i'r Maen Prawf Dwysedd Poblogaeth Lled-Drefol (SUPDC) yn y dyfodol. Cwestiwn testun rhydd yn unig oedd hwn a atebwyd gan tua 60% o'r ymatebwyr.
- Gofynnodd cwestiwn saith i ymatebwyr a oedd unrhyw feysydd penodol o'r EN-7 drafft lle mae angen eglurder neu ganllawiau pellach i helpu i sicrhau bod datblygwyr, cynllunwyr a rheoleiddwyr yn ei weithredu'n llwyddiannus. Derbyniwyd chwe deg wyth o ymatebion i'r cwestiwn hwn, ac roedd mwyafrif ohonynt (62%) yn Oedd, o'i gymharu â 13% a oedd yn Na. Atebodd y gweddill sylweddol (25%) Arall, roeddent heb benderfynu, neu dywedodd yr ymatebwyr nad oedd digon o wybodaeth.
- Gofynnodd cwestiwn wyth i ymatebwyr am eu barn ynghylch a fyddai cymorth a gwybodaeth ychwanegol gan y llywodraeth yn fuddiol ac yn cynorthwyo datblygwyr sy'n bwriadu gwneud cais am Ganiatâd Datblygu i weithredu EN-7 a bwrw ymlaen â'r broses cyn-ymgeisio Gorchymyn Caniatâd Datblygu. Derbyniwyd chwe deg un o ymatebion i'r cwestiwn hwn, ac roedd mwyafrif ohonynt (67%) yn Byddai o'i gymharu â dim ond 5% a oedd yn Na. Atebodd y gweddill sylweddol (28%) Arall, roeddent heb benderfynu, neu dywedodd yr ymatebwyr nad oedd digon o wybodaeth.

1.4.4 Ar y cyfan, cytunodd yr ymatebwyr fod y meini prawf a'r cwmpas a amlinellwyd yn EN-7 yn briodol ac yn ymarferol, ond y byddai gwybodaeth a chanllawiau ychwanegol o fudd i ddatblygwyr sy'n llywio'r gyfundrefn NSIP. Nid yw'r ymgynghoriad wedi nodi unrhyw

feysydd o EN-7 sy'n anymarferol, yn anaddas at y diben, neu sydd heb gefnogaeth eang gan randdeiliaid. Felly, rydym yn bwriadu bwrw ymlaen â dynodi'r EN-7 drafft.

1.5 Ystyriaethau cyffredinol

- 1.5.1 Mae'r adran hon o'r ddogfen yn amlinellu ymateb y llywodraeth i'r pwyntiau a wnaed gan ymatebwyr nad oeddent yn ffitio'n llwyr o fewn unrhyw gwestiwn penodol.

Cynllun cyffredinol ar gyfer niwclear newydd a chyllid

- 1.5.2 Galwodd rhai ymatebwyr am i EN-7 nodi rhaglen fanwl o ddefnydd niwclear, gan gynnwys nifer, math a lleoliad gorsafoedd pŵer niwclear a fydd yn cael eu hadeiladu.
- 1.5.3 Fel y nodwyd yn EN-1, nid yw'r Datganiadau Polisi Cenedlaethol ar ynni yn nodi unrhyw derfyn na tharged ar gyfer seilwaith ynni carbon isel, yn hytrach maent yn sefydlu fframwaith cefnogol a chyfrifol lle mae system ynni dan arweiniad y diwydiant yn cyflwyno prosiectau. Fel rhan o'r gyfres o Ddatganiadau Polisi Cenedlaethol ar ynni, bydd EN-7 yn dilyn y dull hwn.
- 1.5.4 Serch hynny, rydym yn cytuno bod angen sicrwydd. Dyma pam rydym wedi gwneud ymrwymadau pendant, wedi'u hariannu, i'r rhaglen adeiladu niwclear fwyaf mewn cenhedlaeth, gan fuddsoddi £14.2bn yn adeiladu gorsaf bŵer niwclear Sizewell C a sicrhau bod dros £2.5bn ar gael dros y pum mlynedd nesaf i alluogi un o raglenni SMR cyntaf Ewrop.
- 1.5.5 Yn ogystal, rydym hefyd yn darparu llwybr i brosiectau niwclear uwch dan arweiniad preifat gael eu defnyddio ar y grid ac i gyflenwi defnyddwyr diwydiannol. Mae Great British Energy – Nuclear wedi cael y dasg o rôl newydd wrth asesu cynigion o fewn fframwaith newydd, i'w gyhoeddi'n fuan, gyda'r Gronfa Gyfoeth Wladol yn archwilio cyfleoedd buddsoddi posibl a'r Adran Diogeledd Ynni a Sero Net yn archwilio cymorth referniw ar gyfer prosiectau hyfyw.

Perthynas rhwng EN-7 a'r Cynllun Ynni Gofodol Strategol

- 1.5.6 Gofynnodd rhai ymatebwyr am eglurder ynghylch rôl dull y Cynllun Ynni Gofodol Strategol o ran ynni niwclear, a sut y bydd yn rhyngweithio â'r system gynllunio.
- 1.5.7 Bydd y Cynllun Ynni Gofodol Strategol (SSEP) yn cefnogi dull mwy gweithredol o gynllunio seilwaith ynni ledled tir a môr Cymru, Lloegr a'r Alban. Bydd hyn yn helpu i gyflymu'r broses o ddefnyddio seilwaith ynni i hwyluso cysylltiadau cyflymach â'r grid, a dylai roi mwy o eglurder i actorion y farchnad ar siâp ein system ynni yn y dyfodol.
- 1.5.8 Ni fydd yr SSEP ei hun yn gorchymyn ardaloedd penodol i safleoedd ar gyfer datblygu. Rydym, fodd bynnag, yn archwilio sut y gallai diwygiadau i'r system gynllunio helpu i symleiddio penderfyniadau cydsynio ar gyfer datblygiadau sy'n cyd-fynd â'r SSEP.

- 1.5.9 Yn dilyn cynhyrchu'r cynllun, ein bwriad yw i'r SSEP ddod yn rhan o fframwaith systemau cynllunio ledled Prydain Fawr; byddwn yn archwilio a yw'n briodol, er enghraifft, diwygio'r Datganiadau Polisi Cenedlaethol (NPS) yn y dyfodol i ymgorffori'r SSEP neu ei allbynnau gofodol, a sut y mae'n briodol.
- 1.5.10 Dim ond ar ôl i'r SSEP gael ei gynhyrchu a'i gymeradwyo y byddai unrhyw welliannau a allai gael eu gwneud i ddiweddarau'r NPS i adlewyrchu cyhoeddi'r SSEP yn digwydd, a byddant yn ddarostyngedig i'r prosesau a nodir yn Neddf Cynllunio 2008.

Diwygiadau i'r fframwaith rheoleiddio

- 1.5.11 Mynegodd rhai ymatebwyr bryderon diogelwch ac amgylcheddol ynghylch ein hymdrechion i gael Prydain i adeiladu eto.
- 1.5.12 Mae diogelwch yn gonglfaen i'n dull o ymdrin ag ynni niwclear, ac yn rhan allweddol o gynnal hyder y cyhoedd yn y system gynllunio. Bydd unrhyw ddiwygiadau i'r fframwaith rheoleiddio yn seiliedig ar dystiolaeth a safonau rhyngwladol fel y rhai a ddatblygwyd gan yr Asiantaeth Ynni Atomig Ryngwladol. Bydd fframwaith rheoleiddio llym y DU yn parhau i sicrhau diogelwch y cyhoedd.
- 1.5.13 Mae'r Tasglu Rheoleiddio Niwclear wrthi'n adolygu'r rheoliadau a'r fframwaith niwclear, a sut maen nhw'n cael eu defnyddio, gan sicrhau nad yw canlyniadau amgylcheddol yn cael eu cyfaddawdu. Disgwylir yr argymhellion terfynol yn ystod hydref 2025, a bydd y cam nesaf yn canolbwyntio ar atebion ymarferol.

Y safleoedd a restrir yn EN-6

- 1.5.14 Roedd 11 ymateb yn awgrymu bod EN-7 yn dweud mwy am addasrwydd posibl yr wyth safle a restrir yn EN-6 ar gyfer datblygu seilwaith niwclear.
- 1.5.15 Rydym yn deall y diddordeb mewn tynnu sylw at nodweddion y safleoedd a restrir yn EN-6 yn EN-7, ac rydym yn glir bod llawer o'r safleoedd hynny'n debygol o gadw nodweddion cynhenid sy'n debygol o'u gwneud yn ddeniadol i ddiwydiant ar gyfer datblygu seilwaith niwclear. Er enghraifft, mae gan lawer o'r safleoedd a restrir yn EN-6 well cyfle i sefydlu cysylltiad grid digonol, gan helpu i fodloni maen prawf EN-7 sy'n gofyn am seilwaith trosglwyddo ynni digonol. Bydd EN-7 yn cefnogi datblygu seilwaith niwclear ar y safleoedd a restrir yn EN-6, ac mewn mannau eraill. Y ffordd orau y gall EN-7 gefnogi datblygiad ar unrhyw safle posibl yw gosod meini prawf sy'n sicrhau y rhoddir pwysau priodol i nodweddion buddiol y safleoedd hynny pan wneir cais am ganiatâd datblygu, a dyma beth mae EN-7 yn ei wneud.

Cymorth pellach yn y drefn NSIP i ymgeiswyr

1.5.16 Gofynnodd rhai ymatebwyr pa gefnogaeth ychwanegol fyddai'n cael ei darparu gan y llywodraeth ar gyfer ceisiadau a all gymryd sawl blwyddyn i gyrraedd y cam o wneud cais ffurfiol am ganiatâd datblygu.

1.5.17 Ochr yn ochr â dynodiad EN-7, sy'n darparu fframwaith clir a seiliedig ar feini prawf ar gyfer asesu cynigion seilwaith niwclear, mae'r Bil Cynllunio a Seilwaith¹ yn cynnwys diwygiad ategol i symleiddio'r broses gydsynio ar gyfer prosiectau mawr, gan gynnwys niwclear. Gyda'i gilydd, mae'r mesurau hyn wedi'u cynllunio i leihau ansicrwydd a chyflymu'r amser y mae'n ei gymryd i brosesu ceisiadau (yn enwedig ar gyfer ceisiadau amser arweiniol hir) trwy wella eglurder, cydlyniad ac effeithlonrwydd ar draws y system gynllunio. Mae pum amcan cyffredinol y Bil yn cynnwys:

- Cyflwyno proses gydsynio gyflymach a mwy sicr ar gyfer seilwaith, gan gynnwys prosiectau ynni glân a thrafnidiaeth.
- Cyflwyno dull mwy strategol o adfer natur, gan wella canlyniadau amgylcheddol a chreu sefyllfa lle mae natur a'r economi ar eu hennill
- Gwella sicrwydd a gwneud penderfyniadau yn y system gynllunio, gan roi'r adnoddau sydd eu hangen ar awdurdodau lleol i ddarparu gwasanaeth effeithlon a rhagweladwy i ddatblygwyr a buddsoddwyr.
- Datgloi tir a sicrhau gwerth cyhoeddus ar gyfer buddsoddiad ar raddfa fawr, drwy alluogi cydosod tir yn fwy effeithiol gan gyrff y sector cyhoeddus, a sicrhau y gall corfforaethau datblygu weithredu'n effeithiol; a
- Cyflwyno mecanweithiau newydd effeithiol ar gyfer cynllunio strategol trawsffiniol.

1.5.18 Yn ogystal, byddwn yn rhyddhau gwybodaeth atodol unwaith y bydd EN-7 wedi'i ddynodi i gynorthwyo datblygwyr i lywio'r broses gorchymyn caniatâd datblygu. Bydd y ddogfen hon yn cael ei phrofi gyda'r diwydiant cyn ei chyhoeddi.

Gwrthwynebiad i ynni niwclear mewn egwyddor

1.5.19 Lle mynegwyd hynny, roedd gwrthwynebiad yr ymatebwyr i ynni niwclear yn bennaf oherwydd pryderon ynghylch cost, diogelwch ac effaith amgylcheddol, ochr yn ochr â ffafriaeth at ffynonellau ynni adnewyddadwy.

1.5.20 Er ein bod yn cydnabod yr amrywiaeth o safbwyntiau am ynni niwclear, mae'n parhau i fod yn elfen hanfodol o drawsnewid ynni carbon isel y DU, gan gynnig pŵer diogel, dibynadwy a chadarn i ategu ynni adnewyddadwy ysbeidiol a lleihau dibyniaeth ar danwydd ffosil.

¹ <https://bills.parliament.uk/bills/3946>

1.6 Ymagwedd gyffredinol at EN-7 (cwestiynau ymgynghori 1-3)

Cwestiwn 1: I ba raddau ydych chi'n cytuno â'r addasiad i'r dull hwn yng ngoleuni'r adborth o'r ymgynghoriad, i gadw'r trothwy < 50 MW (trydan) yn y fframwaith cynllunio presennol ac i adolygu ein safbwynt yn y dyfodol?

- 1.6.1 Mae'r nodiant "<50MW(trydan)" neu "<50MW(e)" yn golygu "llai na 50 megawat o drydan," gan gyfeirio at y swm mwyaf o drydan y gall gorsaf bŵer ei gyflenwi i'r grid, lle mae'r "(e)" yn sefyll am allbwn trydanol. Wedi'i ysgrifennu fel "MW(t), byddai'r "(t)" yn cyfeirio at allbwn megawat thermol—sy'n golygu cyfanswm yr ynni gwres a gynhyrchir gan yr adweithydd, sydd fel arfer yn uwch na'r allbwn trydanol, a gellir ei ddefnyddio'n uniongyrchol ar gyfer prosesau diwydiannol neu ei drawsnewid yn drydan.
- 1.6.2 Yn EN-6, mae datblygiadau dros 50MW(e) yn cael eu trin fel Prosiectau Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol yn Lloegr, ac mae datblygiadau dros 350 MW(e) yng Nghymru, yn ddarostyngedig i'r broses Caniatâd Datblygu fel y nodir yn Neddf Cynllunio 2008. Mae yna hefyd ddarpariaethau statudol lle gall yr Ysgrifennydd Gwladol gyfarwyddo prosiectau sy'n disgyn o dan y trothwy yn Lloegr i gael eu trin fel datblygiad y mae angen caniatâd datblygu ar ei gyfer. Ar hyn o bryd nid oes trothwy ar gyfer seilwaith cynhyrchu gwres yng Nghymru nac yn Lloegr.
- 1.6.3 Cynigiodd ymgynghoriad 2025 na ddylai EN-7 ddiwygio'r trothwy presennol o 50 MW(e). Roeddem o'r farn y byddai cadw'r trothwy hwn yn y drefn Prosiect Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol yn cefnogi datblygiad technolegau niwclear uwch ac yn sicrhau bod gofynion cynllunio yn gymesur â graddfa ac effaith gwahanol brosiectau. Nododd yr ymgynghoriad yr amgylchiadau lle gallai prosiectau < 50 MW(e) yn Lloegr fod angen cymeradwyaeth yr Ysgrifennydd Gwladol a sut mae'r trothwy hwn yn wahanol yng Nghymru oherwydd Deddf Seilwaith (Cymru) 2024 ar gyfer rhoi caniatâd i brosiectau seilwaith ar raddfa fawr.

Dadansoddiad data ymgynghoriad

Tabl 1: Crynodeb o'r ymatebion i gwestiwn 1

	Cytuno'n gryf	Cytuno	Anghytuno	Anghytuno'n gryf	Heb benderfynu / Dim digon o wybodaeth	Cyfanswm yr ymatebion	Dim ateb
Nifer	12	27	12	4	12	67	10

Cyfran	18%	40%	18%	6%	18%	100%
--------	-----	-----	-----	----	-----	------

- 1.6.4 Roedd 39 o ymatebion i'r cwestiwn hwn (58%) a oedd yn cytuno neu'n cytuno'n gryf â'n dull o gadw'r trothwy < 50MW(e). Roedd lefel uwch o gytundeb gan Sefydliadau sy'n gyfrifol am/sydd â diddordeb mewn datblygiad niwclear newydd, Sefydliadau Anllywodraethol a gweithwyr proffesiynol neu arbenigwyr ynni niwclear.
- 1.6.5 Y rheswm a nodwyd amlaf dros gefnogi cadw'r trothwy < 50 MW(e) oedd ei fod yn sicrhau bod gofynion cynllunio yn parhau i fod yn gymesur â graddfa ac effaith gwahanol brosiectau niwclear. Pwysleisiodd yr ymatebwyr fod y trothwy hwn yn darparu fframwaith clir a hyblyg sy'n osgoi gorlwytho prosiectau llai neu arbrofol gyda'r broses Prosiect Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol, gan barhau i ganiatáu ar gyfer craffu priodol trwy bwerau galw i mewn presennol. Ystyriwyd bod y dull hwn yn hanfodol i feithrin arloesedd, cefnogi defnydd ar ystod o raddfeydd, a chynnal eglurder rheoleiddiol yn ystod cyfnod o esblygiad technolegol.
- 1.6.6 Roedd un deg chwech o ymatebion i'r cwestiwn hwn (24%) yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf â'r dull o gadw'r trothwy < 50 MW. Y grŵp a oedd yn cynnwys y nifer fwyaf o ymatebion anghytuno oedd rhanddeiliaid 'Cynrychiolydd awdurdod lleol/llywodraeth', er bod lleiafrif sylweddol o'r grŵp rhanddeiliaid 'Cynrychiolydd awdurdod lleol/llywodraeth' yn cefnogi ein dull arfaethedig. Y rheswm a nodwyd amlaf dros anghytuno â chadw'r trothwy < 50 MW(e) oedd pryder ynghylch mympwy canfyddedig defnyddio allbwn trydanol fel sail ar gyfer pennu llwybrau cynllunio. Tynnodd yr ymatebwyr sylw at y ffaith nad yw'r risgiau posibl, sensitifwydd y cyhoedd, a chymhlethdodau technegol sy'n gysylltiedig â phrosiectau niwclear o reidrwydd yn gysylltiedig â'u capasiti trydanol. Fe wnaethant bwysleisio eu barn bod pob datblygiad niwclear (waeth beth fo'u maint) yn codi ystyriaethau diogelwch, amgylcheddol, a hyder y cyhoedd sylweddol, ac felly dylent fod yn destun yr un craffu trylwyr a chanolog o dan y gyfundrefn Prosiect Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol. Tynnodd llawer sylw hefyd at y ffaith nad oes gan Awdurdodau Cynllunio Lleol yr arbenigedd a'r adnoddau arbenigol yn aml i asesu cymwysiadau niwclear, yn enwedig ar gyfer technolegau newydd fel micro-adweithyddion, ac y byddai dull cenedlaethol cyson yn sicrhau eglurder ac yn meithrin ymddiriedaeth y cyhoedd.

Ymateb y llywodraeth

- 1.6.7 Rydym yn cynnig cadw'r trothwy < 50 MW(e) am y rhesymau y mae'r ymatebwyr wedi'u nodi uchod. Nodwn fod y rhan fwyaf o'r ymatebwyr (58%) i'r cwestiwn hwn yn cytuno'n gryf neu'n cytuno â'r cynnig, o'i gymharu â 24% a oedd yn anghytuno'n gryf neu'n anghytuno.
- 1.6.8 Gwnaeth rhai ymatebwyr a oedd yn gwrthwynebu cadw'r trothwy < 50MW(e) hynny allan o awydd i sicrhau bod pob prosiect niwclear, waeth beth fo'u maint, yn destun craffu cyson a bod hyder y cyhoedd mewn technolegau sy'n dod i'r amlwg fel micro-adweithyddion yn cael ei gynnal. Rydym yn cydnabod ac yn parchu'r amcan hwn, yn

enwedig o ystyried y cymhlethdod technegol a sensitifrwydd y cyhoedd ynghylch datblygiad niwclear. Fodd bynnag, credwn fod EN-7 yn cyflawni'r nod hwn yn fwy effeithiol trwy gynnal dull cymesur. Mae'r trothwy yn darparu fframwaith clir a hyblyg sy'n osgoi gorlwytho prosiectau llai gyda'r broses Prosiect Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol lawn, gan gadw disgrisiwn y llywodraeth i 'alw i mewn' gynigion sy'n disgyn o dan y trothwy yn Lloegr, lle bo'n briodol. Yn ogystal, waeth a yw prosiect yn destun y drefn gynllunio leol neu'r drefn Prosiect Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol, byddai unrhyw brosiect niwclear yn destun y drefn ddiogelwch a diogeledd dan arweiniad y Swyddfa Rheoleiddio Niwclear (ONR) yn ogystal â'r prosesau trwyddedu perthnasol dan arweiniad y rheoleiddwyr amgylcheddol. Byddai gan awdurdod cynllunio lleol sy'n ystyried cynnig seilwaith niwclear gyda capasiti o < 50MW(e) fynediad at sylwadau gan yr ONR a rheoleiddwyr amgylcheddol ynghylch hyfywedd y cynnig datblygu. Mae hyn yn sicrhau bod effeithiau'n cael sylw priodol, gan alluogi arloesedd a defnydd ar ystod o raddfeydd trwy brosesau cynllunio cymesur.

- 1.6.9 Cododd nifer o ymatebwyr bryderon ynghylch camddefnyddio posibl y trothwy gan ymgeiswyr sy'n ceisio llwybr haws at ganiatadau cynllunio perthnasol drwy gyfundrefn Deddf Cynllunio Gwlad a Thref. Yn yr achos annhebygol y cymerir dull o'r fath i'r drefn gynllunio, gall yr Ysgrifennydd Gwladol dros Dai, Cymunedau a Llywodraeth Leol 'alw i mewn' y prosiect neu'r prosiectau i benderfynu arnynt.
- 1.6.10 Nododd sawl ymatebydd y gallai'r trothwy o 50 MW(e) ymddangos yn fympwyol, yn enwedig lle mae prosiectau o faint tebyg yn disgyn ar y naill ochr a'r llall i'r llinell ac yn destun gwahanol gyfundrefnau cynllunio. Mae'r trothwy hwn yn nodwedd statudol o Ddeddf Cynllunio 2008, ac nid yw wedi'i osod trwy Ddatganiadau Polisi Cenedlaethol. Mae deddfwriaeth yn rhoi pwerau i'r Ysgrifennydd Gwladol i 'alw i mewn' brosiectau.
- 1.6.11 Tynnodd rhai ymatebwyr sylw at y ffaith bod y trothwy yn amherthnasol i raddau helaeth oherwydd byddai'r rhan fwyaf o brosiectau niwclear sydd dan ystyriaeth ar hyn o bryd yn llawer mwy na'r capasiti o 50 MW(e). Er y gallai hyn fod yn wir am lawer o gynigion cyfredol, mae'r llywodraeth yn credu ei bod yn bwysig cadw trothwy clir i roi sicrwydd i ddatblygwyr a sicrhau nad yw prosiectau llai yn cael eu beichio'n ddiangen gan y broses Prosiect Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol oni bai bod eu heffeithiau'n ei gwarantu.
- 1.6.12 Rydym yn cydnabod bod rhai ymatebwyr wedi galw am eglurder ynghylch sut mae'r trothwy 50 MW(e) yn berthnasol i brosiectau niwclear a gynlluniwyd i gynhyrchu trydan, gwres, hydrogen, tanwyddau synthetig, a/neu radioniwclidau meddygol. Yn ein hymateb i'r rownd gyntaf o ymgynghori ar EN-7, fe wnaethom ymrwymo i ddiwygio'r gyfundrefn Prosiect Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol i gynnwys adweithyddion gwres yn unig. Mae EN-7 wedi'i ddrafftio i fod yn berthnasol i bob Prosiect Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol sy'n defnyddio ymholliad niwclear i gynhyrchu ynni. Mae hyn yn golygu, os a phryd bynnag y caiff Deddf Cynllunio 2008, sy'n llywodraethu cwmpas technoleg y gyfundrefn Prosiect Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol, ei diwygio, na fydd angen adolygu EN-7 ymhellach er mwyn bod yn berthnasol i Brosiectau Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol sy'n defnyddio ymholliad niwclear nad ydynt wedi'u

cynllunio'n bennaf i gynhyrchu trydan. Mae'r gyfundrefn Prosiect Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol eisoes yn cynnwys gorsafoedd niwclear sy'n darparu gwres a phŵer, ar yr amod eu bod yn bodloni'r trothwy 50 MW(e) yn Lloegr neu'r trothwy 350 MW(e) yng Nghymru, gan gynnwys lle mae cynhyrchu trydan yn allbwn eilaidd. Mae gwres a phŵer cyfun hefyd yn cael sylw yn y Datganiad Polisi Cenedlaethol Cyffredinol ar seilwaith ynni, EN-1.

1.6.13 Rydym yn cytuno y dylai'r trothwy fod yn destun adolygiad parhaus. Bydd EN-7 yn cael ei adolygu o leiaf bob pum mlynedd, neu'n gynt os bydd tystiolaeth newydd arwyddocaol yn dod i'r amlwg. Wrth benderfynu ar amseriad a natur unrhyw adolygiad, byddwn yn ystyried ymddangosiad mathau newydd o adweithyddion, newidiadau mewn patrymau lleoli, neu dystiolaeth o aneffeithlonrwydd cynllunio o dan y drefn bresennol.

Cwestiwn 2: I ba raddau ydych chi'n credu bod y Datganiad Polisi Cenedlaethol drafft wedi'i baratoi'n ddigonol ar gyfer y dyfodol i ddarparu ar gyfer datblygiadau mewn technolegau niwclear?

1.6.14 Cynlluniwyd EN-6 i hwyluso seilwaith niwclear ar raddfa fawr sy'n gallu cynhyrchu mwy na gigawat (GW) o drydan.

1.6.15 Nododd ymgynghoriad 2025 ddull newydd EN-7 sy'n seiliedig ar feini prawf, sy'n anelu at gefnogi datblygiad yn y safleoedd a restrir yn EN-6 ac mewn mannau eraill yng Nghymru a Lloegr lle bodlonir y meini prawf lleoli arfaethedig er mwyn cefnogi lleoli Adweithyddion Modiwlaid Bach (SMRau) ac Adweithyddion Modiwlaid Uwch (AMRau) yn nhrefn gynllunio'r DU am y tro cyntaf. Mae'r drafft EN-7 hefyd yn mynd i'r afael â sut y gall datblygwyr ymdrin â datblygiad graddol mewn perthynas â'r system gynllunio, a allai fod yn ddull defnyddio a ffefrir ar gyfer SMRau ac AMRau.

Dadansoddiad data ymgynghoriad

Tabl 2: Crynodeb o'r ymatebion i gwestiwn 2

	Cytuno'n gryf	Cytuno	Anghytuno	Anghytuno'n gryf	Heb benderfynu / Dim digon o wybodaeth	Cyfanswm yr ymatebion	Dim ateb
Nifer	6	34	14	7	7	68	9
Cyfran	9%	50%	21%	10%	10%	100%	

1.6.16 Roedd 40 o ymatebion i'r cwestiwn hwn (59%) a oedd yn cytuno neu'n cytuno'n gryf bod y datganiad polisi cenedlaethol drafft wedi'i baratoi ar gyfer y dyfodol ar gyfer

technolegau newydd. Y grŵp o ymatebwyr a roddodd y nifer fwyaf o ymatebion cytuno oedd 'sefydliadau sy'n gyfrifol am/â diddordeb mewn datblygiad niwclear newydd'.

1.6.17 Roedd un ar hugain o ymatebion i'r cwestiwn hwn (31%) yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf bod y datganiad polisi cenedlaethol drafft wedi'i baratoi ar gyfer y dyfodol ar gyfer technolegau newydd. Y grŵp a ddarparodd y nifer fwyaf o'r ymatebion hyn hefyd oedd 'sefydliadau sy'n gyfrifol am/â diddordeb mewn datblygiad niwclear newydd', a dadleuodd rhai ohonynt nad oedd rhai o'r meini prawf yn berthnasol i Dechnolegau Niwclear Uwch.

Ymateb y llywodraeth

1.6.18 odwn fod mwyafrif yr ymatebion yn cytuno bod y drafft EN-7 wedi'i baratoi'n ddigonol ar gyfer y dyfodol i ddarparu ar gyfer datblygiadau mewn technolegau niwclear.

1.6.19 Fodd bynnag, rydym yn cydnabod yr awgrymiadau yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad y gallai fod angen mwy o hyblygrwydd yn y dyfodol ac y dylem ystyried adolygu'r polisi wrth i ddatblygiadau mewn technoleg, datgomisiynu a chymwysiadau ddod i'r amlwg. Bydd EN-7, ochr yn ochr â phob Datganiad Polisi Cenedlaethol, yn cael ei adolygu'n rheolaidd.

Cwestiwn 3: A oes ystyriaethau cynllunio neu leoli penodol y dylid mynd i'r afael â nhw i sicrhau bod y Datganiad Polisi Cenedlaethol yn parhau i fod yn hyblyg i ddefnyddio ynni niwclear mewn lleoliadau amrywiol?

1.6.20 Nododd ymgynghoriad 2025 sut y byddai'r drafft EN-7 yn parhau i fod yn hyblyg i leoliadau amrywiol; cynigiodd y dylai datblygwyr sy'n bwriadu gwneud cais am Ganiatâd Datblygu ddefnyddio'r meini prawf dwysedd poblogaeth ac agosrwydd at weithgareddau milwrol i sgrinio a nodi safleoedd posibl, cyn parhau i nodweddu safleoedd i benderfynu a yw safle yn bodloni'r meini prawf eraill. Mae'r dull hwn sy'n seiliedig ar feini prawf yn grymuso datblygwyr sy'n bwriadu gwneud cais am Ganiatâd Datblygu i nodi safleoedd sy'n optimaidd ar gyfer eu prosiect, gan ddod ag ynni niwclear yn unol â thechnolegau ynni eraill.

Dadansoddiad data ymgynghoriad

Tabl 3: Crynodeb o'r ymatebion i gwestiwn 3

Oes	Na	Arall	Heb benderfynu /	Cyfanswm yr ymatebion	Dim ateb
-----	----	-------	------------------	-----------------------	----------

				Dim digon o wybodaeth		
Nifer	52	7	1	9	69	8
Cyfran	75%	10%	1%	13%	100%	

1.6.21 Roedd 52 o ymatebion i'r cwestiwn hwn (75%) a atebodd, oes, mae ystyriaethau cynllunio neu leoli penodol y dylid mynd i'r afael â nhw i sicrhau bod y Datganiad Polisi cenedlaethol yn parhau i fod yn hyblyg i ddefnyddio ynni niwclear mewn lleoliadau amrywiol. Roedd sefydliadau sy'n gyfrifol am/â diddordeb mewn datblygiadau niwclear newydd a chynrychiolwyr awdurdodau lleol/llywodraeth yn fwy tebygol o ateb oes, gyda'r ymatebwyr hyn yn tueddu i awgrymu y dylid ychwanegu meini prawf neu ystyriaethau ychwanegol at y drafft EN-7.

1.6.22 Roedd y saith ymateb i'r cwestiwn hwn (10%) a atebodd na yn bennaf gan sefydliadau datblygu niwclear newydd neu gadwyn gyflenwi. Lle rhoddwyd sylwadau ychwanegol, roeddent yn tueddu i deimlo bod y meini prawf yn ddigon cynhwysfawr a hyblyg fel y maent.

Ymateb y llywodraeth

1.6.23 Er bod cyfran fawr o'r ymatebwyr wedi ateb 'oes' i'r cwestiwn hwn, a galw am wybodaeth, canllawiau a meini prawf ychwanegol neu ddiwygiedig, ein barn ni yw nad oedd yr un o'r ymatebion wedi nodi diffygion yng nghynllun EN-7 a fyddai'n ei wneud yn anaddas at y diben neu angen ei ddiwygio'n sylweddol i gyflawni ein hamcanion polisi. Ni sefydlodd unrhyw ymateb a dderbyniwyd gennym na all meini prawf EN-7 gymhwyso safonau priodol i unrhyw raddfa o seilwaith niwclear, o raddfa fawr draddodiadol i SMR neu AMR, mewn lleoliadau arfordirol neu fewndirol, ac i wasanaethu'r ystod lawn o gymwysiadau posibl. Yn ogystal, roedd y ceisiadau am newid yn amrywiol iawn ar draws yr ymatebion, gydag ychydig iawn o gynigion ar gyfer newid yn denu cefnogaeth hyd yn oed lleiafrif sylweddol o ymatebwyr. Mae themâu allweddol mewn ceisiadau am newid yn cael eu trafod isod.

1.6.24 Ymhlith yr ymatebion a atebodd 'oes' i'r cwestiwn hwn, roedd meini prawf ychwanegol, a nodi meini prawf newydd a phresennol yn fanylach, yn thema gyffredin. Roedd yr awgrymiadau'n cynnwys meini prawf newydd ar gydleoli â diwydiant, newid hinsawdd, ac effeithiau cronol, a mwy o fanylion ar feini prawf gan gynnwys dŵr gwastraff, llifogydd, ac effeithiau ar ardaloedd morol.

1.6.25 Rydym wedi ystyried y cynigion hyn yn ofalus ac wedi dod i'r casgliad bod y materion yn cael eu trafod ar y lefel briodol o fanylder ar draws EN-1, y drafft EN-7 a chanllawiau cynllunio ac amgylcheddol a phrosesau trwyddedu perthnasol. Er enghraifft, mae EN-7 eisoes yn mynd i'r afael yn benodol â datblygiad graddol, a fyddai'n berthnasol yn naturiol i drefniant nifer o SMRau ac AMRau dros amser, ac yn ôl y gyfraith, rhaid asesu effeithiau cronol fel rhan o'r Asesiad Effaith Amgylcheddol. Rydym wedi dod i'r

casgliad ymhellach y byddai ceisio atgynhyrchu cynnwys EN-1 a chanllawiau a thrwyddedau perthnasol yn EN-7 yn creu risg o groesddywediad yn y Datganiadau Polisi Cenedlaethol ynni a chanllawiau cynllunio ehangach, heb ddarparu unrhyw fudd ychwanegol i'r amgylchedd na chymunedau.

- 1.6.26 Galwodd rhai ymatebwyr am i EN-7 gynnwys dyddiad cau, gan ddadlau y byddai hyn yn rhoi sicrwydd i drigolion sy'n byw yn agos at safleoedd posibl ar gyfer defnydd niwclear newydd. Rydym yn cytuno y dylai trigolion gael eu cynnwys yn llawn a'u hysbysu am ddatblygiad seilwaith niwclear posibl, ond yn anghytuno bod dyddiad cau yn ffordd briodol o gyflawni hyn. Nid oes gan yr EN-7 drafft ddyddiad cau i alluogi diwydiant i gynllunio ar gyfer buddsoddi yn y seilwaith ynni carbon isel sydd ei angen arnom yn y tymor hir. Er mwyn sicrhau bod trigolion yn cael eu hysbysu a'u hymgyngori â nhw am ddatblygiad niwclear newydd, bydd ymgynghori yn parhau i fod yn rhan bwysig iawn o'r broses ganiatáu Prosiect Seilwaith Cenedlaethol ei Arwyddocâd.
- 1.6.27 Awgrymodd rhai ymatebwyr y dylai EN-7 leihau'r gofynion i ystyried safleoedd amgen, yn enwedig os oedd y safle arfaethedig wedi'i restru yn EN-6 neu wedi'i leoli yn agos at neu wrth ymyl y defnyddiwr terfynol y bwriedir iddo gynhyrchu'r ynni. Rydym yn cydnabod y gallai fod amgylchiadau lle mai dim ond nifer fach o safleoedd, neu un safle, sy'n diwallu anghenion prosiect. Fodd bynnag, rydym hefyd yn derbyn na fydd hyn bob amser yn wir ac mae'n rhesymol disgwyl i ymgeiswyr gyfiawnhau'r safle y maent wedi'i ddewis wrth ystyried y defnydd gorau posibl o dir ac osgoi effeithiau amgylcheddol a chymunedol. Rhaid i ddatblygwyr eisoes ystyried safleoedd amgen i fodloni'r Prawf Dilyniannol, pen fo angen y prawf hwnnw. Mae EN-7 yn taro cydbwysedd cymesur trwy ei feini prawf, er enghraifft trwy ei gwneud yn ofynnol i'r ymgeisydd ddangos bod gan y safle arfaethedig ddigon o le i drosglwyddo'r ynni y mae'n ei gynhyrchu i'r defnyddiwr terfynol. O ganlyniad, mae'n debygol y bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn rhoi pwyslais mawr ar y manteision y mae rhai lleoliadau'n eu cynnig yn hyn o beth, megis trwy gael gwell potensial ar gyfer cysylltiad grid digonol o'i gymharu â safleoedd eraill, neu drwy gynnig cydleoli â defnyddwyr ynni galw uchel. Nid yw EN-1 ac EN-7 yn gosod unrhyw derfyn ar faint o seilwaith ynni carbon isel, gan gynnwys niwclear, sydd ei angen ac felly nid ydynt yn ei gwneud yn ofynnol i ymgeiswyr sefydlu mai eu safle arfaethedig yw'r safle mwyaf addas o'r holl safleoedd posibl mewn perthynas ag unrhyw un neu fwy o feini prawf. Gall ymgeiswyr gynnig safle oherwydd ei fod ar gael i'w ddatblygu, ac mae'n perfformio'n foddhaol yn erbyn cymysgedd o feini prawf. Nid oes angen asesu safleoedd amgen mor drylwyr â'r safle a gynigiwyd ac a nodwyd yn y cais am ganiatâd datblygu. Byddai rhai gweithgareddau, fel ymgynghori manwl â rhanddeiliaid, fel arfer yn digwydd ar ôl i ystyried safleoedd amgen arwain at safle arfaethedig.
- 1.6.28 Ar ôl ystyried cynigion yr ymatebwyr ar gyfer ystyriaethau cynllunio neu leoli newydd neu ddiwygiedig y dylid mynd i'r afael â nhw i sicrhau bod y Datganiad Polisi Cenedlaethol yn parhau i fod yn hyblyg i ddefnyddio ynni niwclear mewn lleoliadau amrywiol, rydym yn cynnig nad oes angen manylion ychwanegol ar EN-7 i fynd i'r afael â'r ystyriaethau a godwyd. Mae EN-7 wedi cael ei ddatblygu yn dilyn ymgynghoriad helaeth â diwydiant, rheoleiddwyr a rhanddeiliaid eraill, i fynd i'r afael â'u hanghenion

nhw. Rydym yn ystyried bod EN-7, ynghyd ag EN-1, deddfwriaeth berthnasol, a'r holl ganllawiau perthnasol eraill ar effeithiau amgylcheddol, trwyddedu safleoedd, diogelwch a'r holl ystyriaethau eraill, yn gynhwysfawr ac yn addas at y diben. Rydym wedi ymrwmo i gynnal fframwaith cynllunio sy'n cefnogi'r defnydd o ynni niwclear yng Nghymru a Lloegr, a byddwn yn parhau i ystyried cynigion perthnasol a godir mewn ymateb i'r cwestiwn hwn cyn ein hadolygiad nesaf o EN-7.

1.7 Meini prawf penodol (cwestiynau ymgynghori 4–7)

Cwestiwn 4: I ba raddau ydych chi'n cytuno â'r cynnig i gael gwared ar y gwahaniaeth rhwng meini prawf gwaharddol a meini prawf digyfyngiad yn flaenorol?

- 1.7.1 Roedd EN-6 yn cynnwys amrywiaeth o feini prawf i lywio penderfyniadau ar leoli seilwaith niwclear newydd. Defnyddiwyd y meini prawf hyn i asesu'r safleoedd posibl a enwebwyd gan y diwydiant fel rhan o'r Asesiad Lleoli Strategol a gynhaliwyd gan y llywodraeth. Labelwyd yr holl feini prawf, heblaw am ddwysedd poblogaeth ac agweddau ar agosrwydd at weithgareddau milwrol, yn 'ddigyfyngiad'.
- 1.7.2 Yn y drafft EN-7, nid ydym bellach yn defnyddio'r termau 'Gwaharddol' a 'Digyfyngiad' i rannu'r meini prawf. Mae hyn er mwyn eglurder, oherwydd bydd methu â bodloni unrhyw feini prawf Ffactor sy'n Dylanwadu ar Ddewis Safle, Ystyriaeth Dechnegol a/neu Effaith yn sail i gais am Ganiatâd Datblygu gael ei wrthod gan yr Ysgrifennydd Gwladol.

Dadansoddiad data ymgynghoriad

Tabl 4: Crynodeb o'r ymatebion i gwestiwn 4

	Cytuno'n gryf	Cytuno	Anghytuno	Anghytuno'n gryf	Heb benderfynu / Dim digon o wybodaeth	Cyfanswm yr ymatebion	Dim ateb
Nifer	16	36	4	6	10	72	5
Cyfran	22%	50%	6%	8%	14%	100%	

- 1.7.3 Roedd 52 o ymatebion i'r cwestiwn hwn (72%) a oedd yn cytuno neu'n cytuno'n gryf â dileu'r gwahaniaeth rhwng meini prawf gwaharddol a meini prawf digyfyngiad. Roedd lefel uwch o gytundeb gan 'Sefydliadau sy'n gyfrifol am/â diddordeb mewn datblygiad niwclear newydd' a 'Rhanddeiliaid cynrychiolwyr awdurdod lleol/llywodraeth'.
- 1.7.4 Y rheswm a grybwyllwyd amlaf dros gefnogi dileu'r gwahaniaeth rhwng meini prawf gwaharddol a meini prawf digyfyngiad oedd ei fod yn gwella eglurder ac yn symleiddio'r

broses gynllunio heb wanhau trylwyredd yr asesiad. Nododd yr ymatebwyr, o dan y dull arfaethedig, fod yn rhaid bodloni'r holl feini prawf (boed yn gysylltiedig â lleoli, ystyriaethau technegol, neu effeithiau) er mwyn rhoi Gorchymyn Caniatâd Datblygu, gan wneud y labeli blaenorol yn ddiangen. Gwelwyd y newid hwn fel cam cadarnhaol tuag at sicrhau bod pob ffactor yn cael ei drin â'r un pwysigrwydd, gan leihau dryswch i ddatblygwyr a'r cyhoedd, a hyrwyddo cymhwysiad mwy cyson a thryloyw o'r meini prawf. Croesawodd sawl ymatebydd hefyd y cyfrifoldeb cynyddol a roddir ar ymgeiswyr i ddangos cydymffurfiaeth â'r holl feini prawf, a themlent fod y dull diwygiedig yn adlewyrchu'n well realiti sut mae penderfyniadau cynllunio yn cael eu gwneud o dan y gyfundrefn Prosiect Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol.

- 1.7.5 Roedd deg ymateb i'r cwestiwn hwn (14%) yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf â'r cynnig. Roedd yr ymatebwyr a oedd yn anghytuno â'r cynnig hwn yn cynnwys 'Aelod o'r gymuned leol yng nghyffiniau gosodiad niwclear posibl neu bresennol', 'Sefydliad Anllywodraethol' a 'Cynrychiolydd awdurdod lleol/llywodraeth'.
- 1.7.6 Y pryder a fynegwyd amlaf oedd nid dileu'r gwahaniaeth ei hun, ond sicrhau bod y meini prawf yn parhau i fod yn glir, yn cael eu cymhwyso'n gyson, ac yn gallu cefnogi gwneud penderfyniadau cynnar a hyderus, yn enwedig yng ngoleuni technolegau sy'n esblygu a chyd-destunau polisi datganoledig.

Ymateb y llywodraeth

- 1.7.7 Rydym yn cynnig dileu'r gwahaniaeth rhwng meini prawf gwaharddol a meini prawf digyfyngiad yn flaenorol am y rhesymau y mae'r ymatebwyr wedi'u nodi uchod. Nodwn fod mwyafrif yr ymatebwyr i'r cwestiwn hwn (72%) yn cytuno'n gryf neu'n cytuno â'r cynnig, o'i gymharu â 14% a oedd yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf.
- 1.7.8 Dywedodd yr ymatebwyr a oedd yn anghytuno â dileu'r gwahaniaeth rhwng gwaharddol a digyfyngiad yn bennaf eu bod wedi gwneud hynny i sicrhau bod ffactorau critigol penodol, fel risg llifogydd, agosrwydd at safleoedd sensitif, neu argaeledd dŵr, yn cael eu trin fel cyfyngiadau absoliwt yn y broses o ddewis safleoedd. Credwn fod EN-7 yn cyflawni'r nodau hyn yn fwy effeithiol drwy ei gwneud yn ofynnol i bob maen prawf, boed wedi'u labelu'n waharddol neu'n ddigyfyngiad yn flaenorol, gael eu bodloni er mwyn rhoi Gorchymyn Caniatâd Datblygu. Mae'r dull hwn yn sicrhau nad oes unrhyw ffactor yn cael ei ddadflaenoriaethu, gan ganiatáu proses asesu gyson a thryloyw sy'n adlewyrchu cymhlethdod ac amrywiaeth prosiectau a safleoedd niwclear. Mae hefyd yn osgoi'r risg o ddiystyru safleoedd yn gynamserol lle gellir mynd i'r afael â phroblemau drwy atebion dylunio a/neu beirianyddol priodol.

Cwestiwn 5: Ar hyn o bryd mae'r llywodraeth yn bwriadu cadw'r Maen Prawf Dwysedd Poblogaeth Lled-Drefol yn EN-7. Nodwch i ba raddau rydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r cynnwys.

- 1.7.9 Yn EN-6, aseswyd yr holl safleoedd rhestredig yn erbyn y Maen Prawf Dwysedd Poblogaeth Lled-Drefol fel rhan o'r Asesiad Safle Strategol. Roedd hyn yn ategu system reoleiddio niwclear y DU trwy reoli'r risg bosibl i ardaloedd poblog o seilwaith niwclear trwy gyfyngu ar ba mor agos at ardaloedd dwys eu poblogaeth y gellir ei ddarparu, gan gyfyngu ar raddfa'r effaith bosibl yn yr achos annhebygol iawn o ddigwyddiad sy'n peri risg y tu hwnt i ffin y safle niwclear.
- 1.7.10 Yn ymgynghoriad 2025, nododd y llywodraeth ei bwriad i barhau i gymhwyso'r Maen Prawf Dwysedd Poblogaeth Lled-Drefol yn EN-7, ar gyfer pob technoleg ymholltiad niwclear o fewn y cwmpas. Mae hyn oherwydd nad oes digon o dystiolaeth ar gael ar hyn o bryd i ddangos bod technolegau ymholltiad niwclear newydd yn cyflwyno risg sylweddol wahanol i dechnolegau ymholltiad niwclear presennol.

Tabl 5: Crynodeb o'r ymatebion i gwestiwn 5

	Cytuno'n gryf	Cytuno	Anghytuno	Anghytuno'n gryf	Heb benderfynu / Dim digon o wybodaeth	Cyfanswm yr ymatebion	Dim ateb
Nifer	10	18	11	11	14	64	13
Cyfran	16%	28%	17%	17%	22%	100%	

Dadansoddiad data ymgynghoriad

- 1.7.11 Roedd cyfanswm o 28 o ymatebion i'r cwestiwn hwn (44%) yn cytuno neu'n cytuno'n gryf â chynnwys y Maen Prawf Dwysedd Poblogaeth Lled-Drefol yn y drafft EN-7. Sefydliadau sy'n gyfrifol am neu sydd â diddordeb mewn datblygiadau niwclear newydd a gweithwyr proffesiynol ac arbenigwyr ynni niwclear oedd y prif grwpiau a gytunodd, gyda'r rhan fwyaf yn cytuno ei bod yn ddoeth cadw'r maen prawf nes bod rhagor o dystiolaeth ar ddiogelwch technolegau newydd ar gael. Awgrymodd eraill nad oedd yn cyfyngu'n ormodol ar ddatblygiad yng Nghymru a Lloegr.
- 1.7.12 Roedd cyfanswm o 22 o ymatebion i'r cwestiwn hwn (34%) yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf â'r cynnig. Roedd y rhan fwyaf o'r rhain yn sefydliadau sy'n gyfrifol am neu â diddordeb mewn datblygiad niwclear newydd, ac roedd rhai o'u hymatebion yn awgrymu bod y maen prawf yn seiliedig ar dybiaethau hen ffasiwn a fyddai'n rhwystro defnyddio ynni niwclear yng Nghymru a Lloegr. Roedd ymatebion eraill - yn bennaf gan aelodau'r cyhoedd - yn gwrthwynebu'r maen prawf ar y sail ei fod yn caniatáu i ynni niwclear fod yn rhy agos at boblogaethau ac yn dadlau dros ddatblygiadau niwclear mewn ardaloedd mwy anghysbell.

Ymateb y llywodraeth

- 1.7.13 Mae gan dechnolegau Adweithydd Modiwlaidd Bach ac Adweithydd Modiwlaidd Uwch rôl bosibl sylweddol i'w chwarae wrth gyflenwi ynni carbon isel, i'r grid trydan cenedlaethol ac i ddefnyddwyr â galw mawr fel canolfannau data, giga-ffatrioedd, cynhyrchu hydrogen a thanwydd synthetig a/neu glystyrau diwydiannol. Rydym wedi ymrwmo i weithio gyda diwydiant i wireddu'r potensial hwn.
- 1.7.14 Serch hynny, yn yr achos annhebygol iawn y bydd digwyddiad mewn gorsaf bŵer niwclear yn peri risg y tu hwnt i ffin y safle, efallai y bydd effeithiau ar gymunedau cyfagos sy'n berthnasol i benderfyniad ynghylch a ddylid rhoi caniatâd datblygu ar gyfer seilwaith ynni niwclear. Gall yr effeithiau hyn ddeillio o beryglon ac o fesurau i ddiogelu'r cyhoedd. Mae'r Maen Prawf Dwysedd Poblogaeth Lled-Drefol yn darparu ffordd glir a thryloyw i'r Ysgrifennydd Gwladol bwysu a mesur yr effeithiau posibl hyn wrth ystyried a ddylid rhoi caniatâd datblygu, gan ddefnyddio iodid-131 fel dangosydd dirprwyol sy'n berthnasol i bob technoleg sy'n defnyddio ymholliad niwclear i gynhyrchu ynni. Heb faen prawf perthnasol ar gyfer Datganiad Polisi Cenedlaethol (NPS), byddai angen i'r Ysgrifennydd Gwladol ystyried dwysedd y boblogaeth o hyd ond ni fyddai ganddo bolisi wedi'i nodi mewn NPS perthnasol i ddibynnu arno mwyach, gan greu mwy o ansicrwydd o fewn y system gynllunio i ymgeiswyr a chymunedau sy'n cynnal y broses.
- 1.7.15 Mae tystiolaeth gyfyngedig o hyd i ddangos bod technolegau ymholliad niwclear newydd yn cyflwyno risg sylweddol is o'i gymharu â thechnolegau ymholliad niwclear presennol. Ni ddarparodd unrhyw ymatebwyr ddigon o dystiolaeth i gyfiawnhau newid polisi fel rhan o'r ymgynghoriad hwn. Felly, rydym wedi penderfynu ei bod yn ddoeth parhau i gymhwyso'r Maen Prawf Dwysedd Poblogaeth Lled-Drefol yn EN-7 ar hyn o bryd. Mae'r dull hwn yn taro cydbwysedd rhwng sicrhau bod digon o safleoedd yn y DU ar gael i'w defnyddio a chyfyngu ar yr effaith bosibl yn yr achos annhebygol iawn o ddigwyddiad sy'n peri risg y tu hwnt i ffin y safle niwclear.
- 1.7.16 O ystyried bod amrywiaeth o fodolau adweithydd newydd yn cael eu datblygu, a llawer ohonynt yn gallu cynnwys mesurau diogelwch newydd, byddwn yn parhau i ystyried y maen prawf yn y blynyddoedd i ddod. Bydd EN-7 yn cael ei adolygu bob pum mlynedd i sicrhau ei fod yn parhau i fod yn berthnasol ac yn effeithiol, ond nid yw hyn yn ein hatal rhag diweddarau EN-7 yn gynt. Bydd unrhyw adolygiad o EN-7 neu feini prawf penodol yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn o'r sector a safonau rhyngwladol fel y rhai a ddatblygwyd gan yr Asiantaeth Ynni Atomig Ryngwladol.

Cwestiwn 6: Rydym yn agored i ddiwygio'r Maen Prawf Dwysedd Poblogaeth Lled-Drefol yn y dyfodol. Sut ddylai'r maen prawf hwn newid yn y dyfodol i gefnogi'r defnydd o dechnolegau niwclear uwch yn well, a pha dystiolaeth sy'n cefnogi eich awgrym? Cyfeiriwch at eich ffynonellau.

- 1.7.17 Nododd yr ymgynghoriad resymeg y llywodraeth dros gynnig cadw'r maen prawf Dwysedd Poblogaeth Lled-Drefol heb newidiadau. Mae llawer o ddyluniadau

Adweithyddion Modiwlaid Bach ac Adweithyddion Modiwlaid Uwch yng nghyfnodau cynnar eu datblygiad ac roedd tystiolaeth gyfyngedig ar gael i ddangos bod technolegau ymholliad niwclear newydd yn cyflwyno risg sylweddol wahanol i dechnolegau ymholliad niwclear presennol. Roedd tystiolaeth gyfyngedig hefyd i ddangos y bydd y Maen Prawf Dwysedd Poblogaeth Lled-Drefol yn atal darparu prosiectau niwclear newydd mewn lleoliadau sy'n effeithlon yn economaidd.

- 1.7.18 Unwaith y bydd rhagor o dystiolaeth ar gael ar ddiogelwch technolegau niwclear uwch, efallai y bydd achos dros addasu'r maen prawf. Bydd fframwaith rheoleiddio llym y DU yn parhau i sicrhau diogelwch y cyhoedd mewn unrhyw addasiadau i'r maen prawf yn y dyfodol.

Dadansoddiad data ymgynghoriad

- 1.7.19 Rhoddodd pedwar deg chwech o ymatebwyr sylwadau mewn perthynas â sut y dylid newid y Maen Prawf Dwysedd Poblogaeth Lled-Drefol yn y dyfodol. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr i'r cwestiwn hwn o sefydliadau sy'n gyfrifol am neu sydd â diddordeb mewn datblygiadau niwclear newydd. Awgrymodd rhai ymatebwyr y dylid addasu'r maen prawf i ystyried nodweddion mathau unigol o adweithyddion; tra bod eraill wedi tynnu sylw at ddatblygiadau diweddar yn y Ffindir a'r Unol Daleithiau fel enghraifft i'w dilyn.

Ymateb y llywodraeth

- 1.7.20 Rydym yn ddiolchgar i'r nifer o ymatebwyr a gymerodd yr amser i ateb y cwestiwn hwn a rhoi adborth manwl. Fodd bynnag, nid ydym ar hyn o bryd yn fodlon bod digon o dystiolaeth wedi'i darparu gan ymatebwyr i gyfiawnhau newid neu ddileu'r maen prawf.

Cwestiwn 7: Os nad yw eisoes wedi cael sylw mewn man arall (er enghraifft yn EN-1 a Chanllawiau Prosiect Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol yr Arolygiaeth Gynllunio), a oes unrhyw feysydd penodol o'r EN-7 drafft lle mae angen eglurder neu ganllawiau pellach i helpu i sicrhau bod datblygwyr, cynllunwyr a rheoleiddwyr yn ei weithredu'n llwyddiannus?

- 1.7.21 Mae'r ddogfen ymgynghori a'r drafft EN-7 yn nodi'r ffactorau sy'n dylanwadu ar ddewis safle, ystyriaethau technegol ac effeithiau y bydd datblygwyr yn eu defnyddio i asesu a yw safle yn briodol ar gyfer eu technolegau. Ni ymgynghorwyd â'r rhain yn unigol yn yr ymgynghoriad hwn gan iddynt gael eu hymgyngori yn yr ymgynghoriad rownd gyntaf; gellir gweld ymateb y llywodraeth i'r adborth a dderbyniwyd yn yr ymateb a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2025.

1.7.22 Bydd y fframwaith hwn o feini prawf cadarn yn cael ei ddefnyddio gan ddatblygwyr i asesu a yw safle yn briodol ar gyfer eu technolegau, gan ganolbwyntio ar ddiogelwch, sicrwydd, a rheoli effeithiau amgylcheddol ac effeithiau eraill ar leoliadau a chymunedau a fyddai'n eu cynnal.

Dadansoddiad data ymgynghoriad

Tabl 6: Crynodeb o'r ymatebion i gwestiwn 7

	Oes	Na	Arall	Heb benderfynu / Dim digon o wybodaeth	Cyfanswm yr ymatebion	Dim ateb
Nifer	42	9	2	15	68	9
Cyfran	62%	13%	3%	22%	100%	

1.7.23 Roedd 42 o ymatebion i'r cwestiwn hwn (62%) a atebodd oes, mae meysydd penodol o'r EN-7 drafft lle mae angen eglurder pellach o ran canllawiau. Roedd sefydliadau sy'n gyfrifol am/sydd â diddordeb mewn datblygiadau niwclear newydd a chynrychiolwyr awdurdodau lleol yn fwy tebygol o ateb ie, gyda'r ymatebwyr hyn yn tueddu i awgrymu bod angen eglurhad pellach ynghylch meini prawf penodol yn EN-7, yn enwedig ansawdd ac adnoddau dŵr, bioamrywiaeth ac effeithiau economaidd-gymdeithasol. Tynnodd rhai ymatebwyr sylw hefyd at yr angen am eglurhad pellach ar barthau llywio awyr, rheoli gwastraff ymbelydrol, gorsafoedd nad ydynt yn cynhyrchu trydan, cyd-gynhyrchu, datblygiadau graddol ac ymgysylltu ag awdurdodau lleol a'r cyhoedd.

1.7.24 Cyflwynwyd awgrymiadau ychwanegol gan ymatebwyr y dylai'r Llywodraeth ac EN-7 ddarparu eglurder ar y broses gwmpasu, rôl rheoleiddwyr a nodi sut mae'r drefn gynllunio a rheoleiddio yn gweithio gyda'i gilydd.

1.7.25 Ni roddodd y naw ymateb i'r cwestiwn hwn (13%) a atebodd 'na' ateb testun rhydd, neu fe wnaethant nodi eu bod yn fodlon ar raddfa, eglurder a manylder y meini prawf o fewn EN-7. Roedd y rhain yn lleiafrif mewn rhai mathau o randdeiliaid – cynrychiolwyr awdurdodau lleol, cyrff anllywodraethol, gweithwyr proffesiynol neu arbenigwyr ynni niwclear, aelodau'r gymuned leol, sefydliad sy'n gyfrifol am/â diddordeb mewn datblygiad niwclear newydd a sefydliadau cadwyn gyflenwi niwclear.

Ymateb y llywodraeth

1.7.26 Rydym yn gwerthfawrogi'r adborth a ddarparwyd gan ymatebwyr ynghylch yr angen am eglurder a chanllawiau pellach yn yr EN-7. Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod EN-7 yn darparu gwybodaeth glir i arwain penderfyniadau gan yr Ysgrifennydd Gwladol ac i ddatblygwyr, cynllunwyr a rheoleiddwyr ei hystyried.

- 1.7.27 Rydym yn cydnabod pwysigrwydd eglurder ynghylch y maen prawf penodol a amlygwyd. Fel y nodwyd mewn ymateb i Gwestiwn 3, mae EN-1 ac EN-7 gyda'i gilydd yn cwmpasu sawl un o'r meysydd a gyflwynwyd gan ymatebwyr i raddau digonol, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i, effaith systemau oeri ar boblogaethau pysgod, effeithiau hirdymor amddiffynfeydd rhag llifogydd ac erydiad, ac effeithiau a digolledu tirwedd. Lle bo angen eglurhad pellach, byddwn yn anelu at ddarparu hyn mewn gwybodaeth atodol i gefnogi datblygwyr i fynd i'r afael â'r pryderon hyn.
- 1.7.28 Rydym yn parhau i wneud gwaith i ddatblygu'r Cynllun Ynni Gofodol Strategol a gwybodaeth atodol i gefnogi datblygwyr ymhellach. Mae rhagor o wybodaeth i'w chyhoeddi ar y rhain maes o law. Yn ogystal, mae'r Tasglu Rheoleiddio yn parhau i edrych ar newidiadau i ddeddfwriaeth, cwmpas rheoleiddwyr, cymhwysio rheoleiddio, canllawiau ar gyfer technolegau niwclear newydd, ac aliniad rhyngwladol fel y gellid cymeradwyo dyluniadau adweithyddion a gymeradwywyd dramor yn gyflymach. Byddwn yn ystyried argymhellion terfynol y Tasglu Rheoleiddio Niwclear yn ofalus ac yn ymateb cyn gynted â phosibl.

1.8 Gweithredu (cwestiwn ymgynghori 8)

Cwestiwn 8: A fyddai cefnogaeth neu wybodaeth ychwanegol gan y llywodraeth o fudd ac yn cynorthwyo datblygwyr sy'n bwriadu gwneud cais am Ganiatâd Datblygu i weithredu EN-7 a mynd ymlaen trwy'r broses cyn-ymgeisio ar gyfer Gorchymyn Caniatâd Datblygu?

- 1.8.1 Nododd ymgynghoriad 2025 fwriad y llywodraeth i ddarparu gwybodaeth atodol ochr yn ochr ag EN-7 i gefnogi datblygwyr sy'n bwriadu gwneud cais am Ganiatâd Datblygu wrth gymhwysio EN-7 i'w prosiectau. Rhestrod y hyn y gallai hyn ei gynnwys: dull o lywio'r broses cyn-ymgeisio ar gyfer Gorchymyn Caniatâd Datblygu; tynnu sylw at gyfundrefnau a phrosesau rheoleiddio eraill y dylid eu dilyn; a chyfeirio at ganllawiau presennol.

Dadansoddiad data ymgynghoriad

Tabl 7: Crynodeb o'r ymatebion i gwestiwn 8

	Byddai	Na	Arall	Heb benderfynu / Dim digon o wybodaeth	Cyfanswm yr ymatebion	Dim ateb
Nifer	41	3	2	15	61	16
Cyfran	67%	5%	3%	25%	100%	

- 1.8.2 Atebodd cyfanswm o 41 o ymatebion i'r cwestiwn hwn (67%) byddai, fe fyddai cymorth neu wybodaeth ychwanegol a ddarperir gan y llywodraeth o fudd i ddatblygwyr. Awgrymwyd gwahanol fathau o gymorth a gwybodaeth, gan gynnwys canllawiau pellach ynghylch pryd y dylai ymgeiswyr ymgysylltu â phob corff statudol yn ystod y broses gynllunio. Teimlai rhai ymatebwyr y byddai cynnwys gwersi a ddysgwyd ac arferion gorau a ddilynir gan ymgeiswyr niwclear ac ymgeiswyr nad ydynt yn niwclear hefyd yn helpu ymgeiswyr i lywio'r broses.
- 1.8.3 Atebodd lleiafrif bach iawn o ymatebion i'r cwestiwn hwn (3) na, ni fyddai cefnogaeth neu wybodaeth ychwanegol gan y llywodraeth o fudd.
- 1.8.4 Roedd tua chwarter yr ymatebion i'r cwestiwn hwn (15) heb benderfynu, gan gynnwys mwy o ymatebwyr yn nodi eu hunain fel awdurdodau lleol, a llawer ohonynt yn rhoi eu diffyg cyfarwyddyd â cheisiadau cynllunio niwclear fel rheswm dros yr ymateb hwn. Ni roddodd un deg chwech o ymatebwyr i'r ymgynghoriad unrhyw ateb i'r cwestiwn hwn.

Ymateb y llywodraeth

- 1.8.5 Esboniodd llawer o ymatebwyr fod y broses gydsynio ar gyfer gorsafoedd pŵer niwclear yn cymryd llawer o amser ac adnoddau, a bod y llu o gyrff cyhoeddus sy'n gyfrifol am wahanol elfennau o'r broses yn gallu creu heriau ymarferol iddynt. I helpu gyda hyn, byddwn yn cynnwys manylion cyswllt ar gyfer pob corff yn y broses gydsynio yn y pecyn gwybodaeth atodol a fydd yn cael ei gyhoeddi ochr yn ochr ag EN-7 unwaith y bydd y dynodiad wedi'i gwblhau. Am yr un rheswm, byddwn hefyd yn sicrhau bod y pecyn gwybodaeth atodol yn cyfeirio ymgeiswyr at ddogfennau perthnasol sy'n gysylltiedig â'r broses gydsynio.
- 1.8.6 Mae EN-7 yn ei gwneud yn ofynnol i ymgysylltu'n gynnar ag ymgynghoreion statudol fel rhan o'r broses ailadroddol ar gyfer mynd i'r afael ag effeithiau sy'n deillio o ddatblygiad. Gall a dylai hyn gynnwys canllawiau gan ymgynghoreion statudol i ymgeiswyr ynghylch ansawdd y wybodaeth sydd ei hangen yn ddigon cynnar yn y broses i gasglu'r wybodaeth honno heb achosi oedi a newidiadau dylunio. Lle bo modd, bydd hyn yn cael ei nodi yn y pecyn gwybodaeth atodol.
- 1.8.7 Gofynnodd nifer o ymatebwyr am fwy o eglurder ynghylch dilyniant o fewn y broses gynllunio, a phryd y dylai ymgeiswyr ymgysylltu â chyrff penodol. Dim ond yr hyn y mae'n rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol ei ystyried ar ddiwedd y broses y mae EN-7 yn ei orfodi, a mater i ymgeiswyr yw penderfynu ym mha drefn i fynd i'r afael â phob maen prawf o fewn eu dyluniad a'u cynlluniau seilwaith. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod rhai meini prawf y mae'n debyg eu bod yn well eu bodloni ar ddechrau'r broses, megis a yw'r safle'n pasio'r Maen Prawf Dwysedd Poblogaeth Lled-Drefol ac a yw'n dderbyniol i'r Weinyddiaeth Amddiffyn. Mae'n debygol y bydd meini prawf eraill yn cael eu hystyried yn ailadroddol wrth i ddyluniad y seilwaith ystyried yr holl ystyriaethau perthnasol eraill yn raddol, ond mae hyn yn debygol o fod yn benodol i'r safle a'r cyd-destun.

- 1.8.8 Wrth i fwy o ymgeiswyr fynd ymlaen drwy'r broses gynllunio, byddwn yn parhau i ddiweddarau'r pecyn gwybodaeth atodol i adlewyrchu gwersi a ddysgwyd ac arfer gorau o brosiectau niwclear a phrosiectau nad ydynt yn niwclear.

2 Camau nesaf: Y broses a'r amserlen tuag at ddynodi'r Datganiad Polisi Cenedlaethol newydd EN-7

2.1 Rhagarweiniad

2.1.1 Mae Adran 2 yn nodi'r broses a'r amserlen ar gyfer dynodi'r Datganiad Polisi Cenedlaethol newydd ar gyfer Cynhyrchu Ynni Niwclear EN-7.

2.2 Proses ac amserlen

Amserlen	Cam
Gwanwyn - Haf 2025	<p>Dadansoddiad o ymatebion yr ail rownd o ymgynghori a chyhoeddi ymateb y llywodraeth. Cwblhawyd gyda chyhoeddi'r ddogfen hon.</p> <p>Paratoi a chwblhau'r Datganiad Polisi Cenedlaethol drafft:</p> <ul style="list-style-type: none">• Ymgorffori adborth o'r dadansoddiad ymgynghori yn y Datganiad Polisi Cenedlaethol drafft• Cwblhau'r Datganiad Polisi Cenedlaethol drafft a pharatoi dogfennau ategol ar gyfer craffu seneddol <p>Craffu Seneddol yn Nhŷ'r Arglwyddi.</p>
Hydref 2025	<p>Craffu Seneddol yn Nhŷ'r Cyffredin gan y Pwyllgor Diogeledd Ynni a Sero Net.</p> <p>Diwygio drafft y Datganiad Polisi Cenedlaethol yn seiliedig ar adborth seneddol a pharatoi'r fersiwn derfynol i'w gosod gerbron y Senedd.</p> <p>Gosod y ddogfen gerbron y senedd:</p> <ul style="list-style-type: none">• Gosod dogfen Datganiad Polisi Cenedlaethol derfynol gerbron y Senedd i'w hystyried yn ffurfiol

	<ul style="list-style-type: none">• Cynnal dadleuon seneddol a sicrhau cymeradwyaeth ar gyfer y Datganiad Polisi Cenedlaethol
Diwedd 2025	<p>Dynodiad terfynol a chyhoeddi:</p> <ul style="list-style-type: none">• Paratoi Datganiad Polisi Cenedlaethol i'w gyhoeddi, gan gynnwys cysodi ac argraffu• Dynodi Datganiad Polisi Cenedlaethol yn swyddogol a'i gyhoeddi ar wefan y llywodraeth

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael o: www.gov.uk/desnz

Os oes angen fersiwn o'r ddogfen hon arnoch mewn fformat mwy hygyrch, anfonwch e-bost i alt.formats@energysecurity.gov.uk. Dywedwch wrthym pa fformat sydd ei angen arnoch. Bydd o gymorth i ni os dywedwch pa dechnoleg gynorthwyol rydych chi'n ei defnyddio.